Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Animal Health & Welfare Wales
Gwaredu BVD

Gwaredu BVD

Crynodeb o'r Cyfnod Gwirfoddol
2017 - 2022

Canolfan Ymchwil Anaseth
Agriculture Research Centre
RVC Royal Veterinary College University of London

Cynnwys

Gwaredu BVD - Effaith mewn Ffigurau 3
Pam mae dileu BVD yn bwysig? 4
Sut cafodd rhaglen Gwaredu BVD ei strwythuro? 5
Pa mor llwyddiannus oedd Sgrinio Stoc Ifanc trwy 6
raglen Gwaredu BVD?
Sut gwnaeth Gwaredu BVD gwobrwyo ffermydd 7
oedd yn rhydd o BVD?
Sut gwnaeth Gwaredu BVD gefnogi ffermydd positif? 8
Barn milfeddyg: Philip Thomas, Milfeddygon Ystwyth 9
Gyda phwy roedd Gwaredu BVD yn gweithio? 10
Sut gwnaeth Gwaredu BVD gyflawni ei amcan o gynyddu 12
ymwybyddiaeth BVD o fewn y diwydiant?
A wnaeth Gwaredu BVD annog newid ymddygiad 13
o fewn y diwydiant?
Beth yw'r Cam Nesaf i ddileu BVD yng Nghymru? 14
Diolch gan dîm Gwaredu BVD 16

Mae'r prosiect wedi derbyn cyllid trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a ariennir gan Lywodraeth Cymru. a'r Undeb Ewropeaidd.

Gwaredu BVD
Effaith mewn Ffigurau
Medi 2017 – Rhagfyr 2022

85%
Ffermydd gwartheg wedi'u sgrinio

9,369
Ffermydd gwartheg Cymru wedi'u sgrinio

• Fferm wedi'i sgrinio

29,021
Sgrin Stoc Ifanc wedi'u hariannu

19,282
Tystysgrifau BVD wedi'u wobrwyo

1,296
Helfa PI's wedi'u hariannu

1,582
PI's a amheuir wedi'u nodi

100%
Pob practis milfeddyg anifeiliad fferm yn rhan o'r rhaglen

Pam mae dileu BVD yn bwysig?

Mae Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yn glefyd a achosir gan feirws sy'n achosi gwrthimiwnedd a methiant atgenhedlu mewn gwartheg. Gall BVD achosi erthyliad, anffrwythlondeb, lloi anffurf, achosion cynyddol o niwmonia lloi ac iechyd gwael y fuches. Mae'r feirws yn cael ei gynnal mewn buchesi gan bresenoldeb anifeiliaid sydd wedi'u heintio'n barhaus (PI).

Bydd dileu BVD yn sicrhau gwell iechyd a lles anifeiliaid ar ffermydd gwartheg ar draws Cymru. Bydd leihad ar glefydau a'r angen am therapi gwrthficrobaidd yn cyfyngu digwyddiadau ymwrthed gwrthficrobaidd. Bydd enw da amaethyddiaeth Cymru ynghyd â'i chynhyrchiant hefyd yn wella. Bydd buches gynhyrchiol yn arwain at fuches fwy proffidiol, gyda llai o ôl troed carbon.

O ganlyniad, rhoddodd Llywodraeth Cymru flaenoriaeth ar ddileu BVD yn eu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Beth oedd nodau ac amcanion Gwaredu BVD?

Nod y rhaglen

I weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant i greu a darparu rhaglen wirfoddol i ddileu BVD o Gymru.

Amcanion y rhaglen

- Codi ymwybyddiaeth o BVD ymhlith ffermwyr a milfeddygon;
- Cefnogi pob fferm gwartheg yng Nghymru i ganfod eu statws BVD;
- Canfod anifeiliaid sydd wedi'u Heintio'n Barhaol (PI) sy'n lledaenu'r feirws.

Sut cafodd rhaglen Gwaredu BVD ei strwythuro?

Gan fanteisio ar prawf TB blynyddol, cynigiwyd pob fferm wartheg yng Nghymru y cyfle i gael Sgrin Stoc Ifanc BVD yn ystod yr un ymweliad gan y milfeddyg. Ychwanegodd hyn werth at y prawf TB, gan wneud y defnydd gorau o arbenigedd filfeddygol, amser y ffermwr a trafod anifeiliaid i reoli'r ddau afiechyd.

Roedd canlyniadau'r Sgrin Stoc Ifanc wedyn yn categoreiddio'r ffermydd fel y dangosir isod.



Pa mor llwyddiannus oedd Sgrinio Stoc Ifanc trwy raglen Gwaredu BVD?

Trwy sgrinio 9,369 o ffermydd, nododd Gwaredu BVD fod 27% o ffermydd wedi sgrinio'n positif ar gyfer BVD yn 2018. Yn 2022, gostyngodd hyn i 23%, sy'n golygu bod 77% o ffermydd bellach yn rhydd o BVD.

9,369
ffermydd unigryw sydd wedi sgrinio o leiaf unwaith sy'n cynrychioli 85% o'r holl ffermydd gwartheg yng Nghymru

29,021
cyfanswm blynyddol Sgriniau Stoc ifanc

148,770
anifeiliaid wedi'u profi am wrthgyrff

Canran o ffermydd Cymru sydd wedi sgrinio'n positif am wrthgyrff yn flynyddol



Sut gwnaeth Gwaredu BVD gwobrwyo ffermydd oedd yn rhydd o BVD?

Cyflwynodd Gwaredu BVD dystysgrifau BVD Efydd, Arian ac Aur er mwyn galluogi ffermwyr i rannu eu statws BVD wrth werthu stoc er mwyn hyrwyddo prynu gwybodus.

Gobrwywyd
5,809
Tystysgrifau
Aur

Gobrwywyd
5,018
Tystysgrifau
Arian

Gobrwywyd
8,455
Tystysgrifau
Efydd

Rhwng 2017 a 2022,
cafodd 19,282 o dystysgrifau
Gwaredu BVD eu ddarparu
i ffermwyr ledled Cymru.

Sut gwnaeth Gwaredu BVD gefnogi ffermydd positif?

Roedd pob fferm a gafodd ganlyniadau gwrthgyrff positif fel rhan o'u Sgrin Stoc Ifanc yn deilwng i gyllid Gwaredu BVD ychwanegol tuag at Helfa PI, i'w gefnogi i nodi unrhyw anifeiliaid PI ar eu daliad.

Graddfa Helfa PI		
1,296	**1,582**	**93,191**
Helfeydd PI wedi'u cyflawni	Nodwyd fel anifeiliaid a amheuir i fod yn PI	Anifeiliad sydd wedi cael prawf antigen

Anifeiliaid PI sy'n gyfrifol am ledaenu'r feirws ledled Cymru a thros y ffin. Ni ellir trin na gwella anifeiliaid PI, rhaid iddynt gael eu hynysu a'u difa.

Barn milfeddyg: Philip Thomas, Milfeddygon Ystwyth

"Cafodd BVD ei gyflwyno i fuches oedd yn ehangu'n gyflym ac roedd y ffermwr wedi prynu stoc o sawl le. Ar y sgrin cyntaf, daethom o hyd i lawer o anifeiliaid gwrthgyrff positif ac wedi hynny daethom o hyd i 5 PI. Cymerodd dipyn o amser i ddarbwyllo'r ffermwr i ynysu ac i ddifa lloi oedd, ar y pryd, yn edrych yn iach. Ond pan ddechreuodd rhai ohonynt ddirywio cafodd y lloi i gyd eu ddifa yn y pen draw. Yn dilyn hyn, canfwyd 2 PI arall yn y buches, ond ers hynny maent wedi sgrinio'n glir am ddwy flynedd. Ers hynny, bu llai o erthyliadau, llai o ddefnydd o wrthfiotigau a llai o loi angen diferion. Mae sgrinio'r buches yn flynyddol wedi galluogi'r ffermwr i ddileu BVD.

Mewn buchesi eraill lle rydym wedi gweld sgriniau clir ers blynyddoedd, mae sgrin positif yn fryderus. Gwnaeth sgrinio a chwestiynu dilynol datgelu doriadau ar fioddiogelwch, a mewn un achos roedd gwartheg cyfagos wedi torri i mewn ac wedi dod ag afiechyd gyda nhw. Mewn achos arall, prynwyd llo i gymryd lle llo arall a gollwyd adeg lloia. Oherwydd y sgrinio BVD blynyddol, roedd modd canfod y digwyddiadau hyn yn gyflym. O ganlyniad, dim ond un PI a ganfwyd ar bob un o'r ffermydd hyn.

Mae'r cynllun wedi tanlinellu i ni sut mae diffyg bioddiogelwch, hyd yn oed ar raddfa cymharol fach, yn arwain at ddifrod parhaol.

Nid oes unrhyw un yn ddiogel rhag bygythiad BVD nes bod pob fferm yn glir o BVD."

Gyda phwy roedd Gwaredu BVD yn gweithio?

Grŵp Llywio

Roedd Grŵp Llywio Gwaredu BVD yn cynnwys Coleg Sir Gâr, RVC, NFU, FUW, Iechyd Da, Milfeddygion Gogledd Cymru, SRUC, Cyswllt Ffermio, AHDB, HCC a BVA.

Roedd yr holl bartneriaid uchod yn cefnogi'r cysyniad o ddileu BVD yng Nghymru ac roedd eu cyfraniad yn holl bwysig er mwyn sicrhau cyfranogiad Cymru gyfan yn y rhaglen. Mae'r llwyddiant a amlinellir gan y rhaglen hon yn profi pwysigrwydd cydweithio.

Practisau Milfeddygol

Yn allweddol i lwyddiant rhaglen Gwaredu BVD oedd cyfranogiad pob practis milfeddyg anifeiliad fferm ar draws Cymru. Cafodd hyn ei gyflawnu trwy ddau bartner - Iechyd Da a Milfyddygion Gogledd Cymru.

Cefnogodd Gwaredu BVD filfeddygon ledled Cymru gyda:

- Hyfforddiant BVD Parhaus
- Nodiadau atgoffa amserol ar gyfer cleientiaid i sgrinio am BVD
- 72 awr — Sicrhau bod canlyniadau ar gael ar gyfer diwrnod darllen TB - o fewn 72 awr
- Adnoddau a llinell gymorth BVD

Rhanddeiliaid eraill

Ymgysylltodd Gwaredu BVD â llu o randdeiliaid yn y diwydiant, gan gynnwys marchnadoedd gwartheg, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn ogystal â rhaglenni dileu BVD eraill ar waith ledled Ynysoedd Prydain er mewn wella ymwybyddiaeth a chyfranogiad yn y rhaglen.

Sut gwnaeth Gwaredu BVD gyflawni ei amcan o gynyddu ymwybyddiaeth BVD o fewn y diwydiant?

Yn ystod cyfnod gwirfoddol Gwaredu BVD, roedd ymgyrch addysg a farchnata yn gweithio llaw yn llaw gyda cyfranogiad y diwydiant i wella dealltwriaeth ffermwyr gwartheg o reolaeth BVD.

Fe wnaethom ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau marchnata megis clipfyrddau, llyfrynnau, gwresogyddion corff a mygiau i gynyddu ymwybyddiaeth o BVD yn y diwydiant, fel y dangosir isod:

A wnaeth Gwaredu BVD annog newid ymddygiad o fewn y diwydiant?

Mae pum mlynedd o gefnogaeth parhaus o annog y diwydiant i sgrinio ar gyfer BVD wedi arwain at y newidiadau ymddygiad canlynol:

- Y drefn arferol o sgrinio'n flynyddol ar gyfer BVD yn ystod y prawf bTB blynyddol i wirio'r fuches am ryddid BVD.
- Mwy o flaenoriaeth i ddileu BVD gan filfeddygon a ffermwyr.
- Mwy o ymwybyddiaeth o'r clefyd a chanolbwyntio ar brynu anifeiliaid sydd yn dod o fuches rhydd o BVD.
- Ffermwyr yn rhannu eu statws BVD wrth werthu stoc.
- Cydnabyddiaeth gan CAFC o bwysigrwydd rheoli BVD a chyflwyniad o ofynion mynediad newydd i wartheg.

Beth yw'r Cam Nesaf i Ddileu BVD yng Nghymru?

O ganlyniad i'r momentwm a grëwyd gan raglen Gwaredu BVD ac uchelgais grŵp llywio'r diwydiant, cydnabyddodd Llywodraeth Cymru yr angen i gadw'r enillion a wnaed yn ystod y cyfnod gwirfoddol a lansiodd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Haf 2022 i gasglu barn y diwydiant ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth i gefnogi dileu BVD.

Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'i ymateb i'r crynodeb o ymatebion.

Ar 31 Ionawr 2023 fe gyhoeddodd y Gweinidog, Lesley Griffiths yn y Senedd ei bod yn gweithio tuag at *"ddod â deddfwriaeth ymlaen yn y flwyddyn ariannol nesaf".*

Detholiad o ddatganiad y Gweinidog:
"Mae rhaglen Gwaredu BVD yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio mor llwyddiannus.

> "Roedd **dros 81%** o'r ymatebwyr yn cytuno bod deddfwriaeth sy'n gofyn am sgrinio BVD gorfodol yn angenrheidiol i gyflawni rhyddid BVD yng Nghymru.
>
> *(Llywodraeth Cymru, Crynodeb o'r ymatebion, t.6)*"

Lesley Griffiths,
Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd.

Wrth i ni fynd i mewn i'r cyfnod pontio a pharatoi ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod ceidwaid yn parhau i brofi eu buchesi am BVD a chael gwared ar anifeiliaid sydd wedi'u heintio'n gyson cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

Y bwriad ar gyfer cynllun yn y dyfodol o hyd yw darparu set o ofynion i ganiatáu i geidwaid dynnu BVD o'u buchesi a'i gadw allan drwy fioddiogelwch da. Byddai gofynion gorfodol yn sicrhau bod egwyddorion dileu BVD effeithiol yn cael eu dilyn a gall y fuches genedlaethol elwa ar ganlyniadau hirdymor cyflawni rhyddid rhag BVD.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar gynnydd a llwyddiannau cam gwirfoddol y cynllun, ac wrth i ni fynd ymlaen i'w gam nesaf, hoffwn ddiolch i'r diwydiant gwartheg, partneriaid cyflenwi a cheidwaid ledled Cymru am eu gwyliadwriaeth a'u hymdrechion hyd yma tuag at ddileu BVD."

Diolch
gan dîm Gwaredu BVD

John Griffiths,
Rheolwr Rhaglen
Gwaredu BVD.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni neu siaradwch â'ch milfeddyg:

www.ahww.cymru

gwaredubvd@colegsirgar.ac.uk

01554 748 576

@gwaredubvd

"Gyda'n gilydd, rydym wedi dangos manteision rhaglen a arweinir gan y diwydiant a'r effaith gadarnhaol y mae sgrinio ar gyfer BVD yn ei chael – nid yn unig ar fuchesi unigol, ond hefyd ar gyfer brand Cymru wrth i ni weithio i wella ein enw da a chefnogi masnachu ffermio Cyrmru yn byd-eang.

Mae 85% o ffermydd Cymru wedi cymryd rhan yn rhaglen Gwaredu BVD ac mae hynny'n dyst i'r ymdrech a'r gwaith tîm y mae'r diwydiant cyfan wedi eu ymrwymo er mwyn ddileu BVD. Ni fyddai cyfraddau ymgysylltu mor uchel wedi bod yn bosib heb gyllid Llywodraeth Cymru a chefnogaeth Grŵp Llywio Gwaredu BVD a Phartneriaid Cyflenwi.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi gweithio ar ac wedi cymryd rhan yng ngham gwirfoddol Gwaredu BVD. Gadewch i ni gadw'r enillion hyn a parhau i weithio tuag at ddiwydiant gwartheg yng Nghymru sy'n rhydd o BVD."